

Barn Rhondda Cynon Taf

Dysg

Dau Ieithydd yn y Wladfa

Iwan Wyn Rees

Ystyried profiadau dau ysgolhaig o fro'r Eisteddfod ym Mhatagonia a wneir yma. Mae rhai o ganfyddiadau Dr Ceinwen Thomas a'r Athro Gareth Alban Davies o'r Wladfa Gymreig yn awgrymu llawer hefyd am ddylanwad cymoedd eu mebyd arnynt.

Yn ddiweddar, cefais y pleser o olygu rhifyn arbennig o *Gwerddon* (cyfnodolyn ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol) ar y testun 'Deongliadau newydd o'r Wladfa Gymreig'.

Ymhlith y cyfranwyr y mae Dr Sara Borda Green sy'n dod o Drevelin yng Nghwm Hyfryd (ac un yr oedd rhai o'i hynafiaid yn hanu o Gwm Cynon).

Mewn dadansoddiad o'r rhaglen ddogfen arbrofol *Separado!* (Gruff Rhys a Dylan Goch) a ddarledwyd gyntaf yn 2010, dadl graidd ei herthygl yw bod portreadau Cymreig o'r Wladfa ers y 1940au (yn ffeithiol ac yn ffuglennol) yn dweud mwy wrthym am bobl Cymru a'u pryderon gwleidyddol am eu gwlad eu hunain nag am unrhyw realiti ar lawr gwlad Patagonia. Er enghraifft, mewn portreadau Cymreig yn y gorffennol bu'n ffasiynol sôn, meddai, am 'fethiant gwleidyddol' y Wladfa, fel petai'n ddrych o fethiant gwleidyddol Cymru yn y cyd-destun Prydeinig. Daw'n amlwg fod y safbwyntiau 'Cambro-ganolog' hyn yn ei blino fel aelod o gymuned Gymreig Talaith Chubut heddiw.

Dau ieithydd dawnus o fro'r Eisteddfod eleni a gafodd gyfle i ymweld â'r Wladfa gyda'i gilydd ar ddechrau'r 1970au oedd Dr Ceinwen Thomas (1911–2008) a'r Athro Gareth Alban Davies (1926–2009). Croniclodd yr olaf ei argraffiadau o'i daith yn y gyfrol *Tan Tro Nesaf: Darlun o Wladfa Gymreig Patagonia* (1976), a gynhwysai ddarluniau gan Kyffin Williams. Roedd Dr Ceinwen (fel y'i gelwid) eisoes wedi cyhoeddi cyfres o erthyglau am ei thaith yn *Y Cymro* yn 1972.

Er i Dr Ceinwen dreulio'r rhan helaethaf o'i bywyd yng Nghaerdydd, â Nantgarw yng Nghwm Taf, man ei geni, y'i cysylltir yn bennaf. Bydd nifer yn gyfarwydd â Nantgarw heddiw fel lleoliad sinema aml-sgrîn Showcase ynghyd â bwyty Frankie & Benny's a thafarn datws ap Donald gerllaw. Ond yno hefyd y magwyd un o brif dafodieithegwyr yr iaith, a dyma'r man sy'n sail i *fagnum opus* Ceinwen Hannah Thomas, sef *Tafodiaith Nantgarw: Astudiaeth o Gymraeg Llafar Nantgarw yng Nghwm Taf, Morgannwg*, 2 gyfrol (1993). Neilltuwyd y gyfrol gyntaf ar gyfer astudiaethau seinegol a gramadegol o'r dafodiaith ac yn yr ail ceir casgliad swmpus – 867 tudalen o hyd – o eirfa'r dafodiaith. Dyma waith oes yn sicr, a gwaith sy'n dynodi diwedd cyfnod. Meddai'r awdur ar ddiwedd ei rhagymadrodd (gan gyfeirio'n olaf at effaith gwella'r A470 o 1969 ymlaen): 'Chwalwyd iaith a chymdeithas yn Nantgarw yn y ganrif hon ac yn y diwedd chwalwyd hyd yn oed adeiladau'r hen bentref'.

Y feirniadaeth weithiau o *Tafodiaith Nantgarw* yw bod yr ymchwilydd wedi dibynnu'n ormodol ar idiolect (hynodion iaith unigolyn), sef iaith ei mam, Catherine Margretta Thomas. Ond ceir cyfiawnhad clir ganddi dros hyn. Dywed yn ei rhagymadrodd fod gan ei mam 'wybodaeth gwbl arbennig o'r dafodiaith'. Yn ifanc, a hithau'n wniadyddes, byddai'n ymweld â thai a ffermydd y fro i gyflawni ei gwaith. 'Yr oedd ganddi', meddai ymhellach, 'gof eithriadol a diddordeb byw yn iaith a thraddodiadau ei bro enedigol'. Ysgytwol i ni heddiw yw'r sôn am brofiadau 'addysgol' ei mam:

Gwisgai fy mam y Welsh Not bron bob dydd... ac yr oedd ei hatgofion am ddyddiau ysgol yn hunllefus... [Y]chydig o gyd-ddisgyblion fy rhieni a drosglwyddodd y Gymraeg i'w plant eu hunain... Felly... perthynaf fi i'r genhedlaeth olaf i etifeddu tafodiaith y fro yn dreftadaeth fyw.

Rhaid ychwanegu bod naw siaradwr arall wedi eu henwi yn y rhestr o gyfranogwyr ar ddechrau'r astudiaeth, a da i'r sosioieithydd cyfoes gofio mai yn wyneb shifft iaith a marwolaeth tafodiaith y cofnodai Dr Ceinwen iaith lafar Nantgarw – nid oedd samplu siaradwyr ar hap fel pe bai yn Efrog Newydd yn opsiwn iddi.

Diolchwn i Dr Ceinwen, felly, am rannu cymaint o'r dreftadaeth fyw ddiiflanedig honno â'i chyd-wladwyr. Rhaid cydnabod hefyd ei gwaith pwysig yn y 1960au a'r 1970au fel cyfarwyddwr ar 'Uned Ymchwil Ieithyddol' Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd;

datblygiad a arweiniodd at lu o astudiaethau tafodieithol eraill (hyd yn oed os bu croesi cleddyfau rhyngddi ac ambell fyfyrwr a heriai ddulliau gwaith maes sefydledig ei huned).

Cawn droi at sylwadau Dr Ceinwen am y Wladfa yn y man, a chyn trafod cyfrol rymus Gareth Alban Davies, *Tan Tro Nesaf*, mae'n werth pwysleisio bod modd olrhain ei ddiddordebau ieithyddol ef yn ôl i'w fagwraeth yn Nhon Pentre yn y Rhondda. Ef oedd aelod ieuengaf Cylch Cadwgan, y grŵp hwnnw o lenorion a meddylwyr Cymraeg a gyfarfyddai yn nhŷ J. Gwyn Griffiths a Käte Bosse-Griffiths ar ochr arall Afon Rhondda Fawr yn y Pentre. Yno, yn ogystal â rhoi cynnig ar gyfansoddi cerddi Cymraeg, gallai drafod â'i fentoriaid y llenyddiaeth Sbaeneg a Ffrangeg a astudiai yn Ysgol Ramadeg y Porth. Nid syndod i'r mab-i-weinidog hwn ennill ysgoloriaeth i fynd i astudio ieithoedd Romáwns ym Mhrifysgol Rhydychen cyn dilyn gyrfa academiaidd ym Mhrifysgol Leeds lle y daeth yn Athro mewn Astudiaethau Hisbaenaidd. Ac er gwaethaf cyfnod o 30 mlynedd yn Swydd Efrog, mae'n arwyddocaol i Gareth Alban a'i wraig Dr Caryl Davies – ysgolhaig dawnus arall o'r Rhondda, ac awdur y clasur *Adfeilion Babel* (2000) – drosglwyddo'r Gymraeg i bob un o'u pedwar o blant.

Beth, felly, sydd ganddo i'w ddweud am y Wladfa? O bori drwy *Tan Tro Nesaf*, synhwyrir ei fod yn ei elfen, yn ei eiriau ef, yn 'agor drosof fy hun ddeuglo drws y Wladfa'. Teg dweud bod ei frwdfrydedd tuag at y Sbaeneg (gan gynnwys dylanwadau'r brodorion arni) ynghyd â'r diwylliant Archentaidd yn hydreiddio talpiau o'r gyfrol. Ond o safbwynt ail elfen y 'ddeuglo', sef diwylliant Cymraeg Chubut, roedd y profiad yn amlwg yn fwy chwerwfelys iddo. A dyma lle y synhwyrwn fod yr hisbaenydd mawr hefyd yn Gymro angerddol, ac yn anad dim, yn un o blant y Rhondda.

Wrth drafod tafodiaith y Wladfa, er enghraifft, mae fel petai'n ymhyfrydu yng ngoroesiad elfennau cuddiedig bron ei dafodiaith ei hun wrth sylweddoli y byddai Gwenhwyseg trwch yr ymfudwyr gwreiddiol wedi bod yn destun anfri gan nifer o'r arweinwyr gogleddol. Meddai:

Iaith y Gogledd piau hi... Mewn ardal fel y Gaiman neu Dreorcki, lle'r oedd y rhan fwyaf o'r Gwladfawyr yn dod o'r Sowth, ceir mwy o eirfa ddeheuol, a chlywir yno o bryd i'w gilydd ambell galedu cytsain ("rwy'n cretu," "weti'ny," ac yn y blaen), neu ambell ymadrodd o'r Sowth ("ta p'un", er enghraifft); ond hyd yn oed yn y fan honno deil y wedd gyffredinol yn ogleddol.

Ingol hefyd yw ei ddarlun o hen ŵr dall a rhannol fyddar yn ei nawdegau, Gwilym Evans, a dreuliodd gyfran o'i blentyndod yn y Pentre yng Nghwm Rhondda cyn dychwelyd i'r Wladfa. Wrth hel atgofion am ambell siop a chapel yn y 'Pentra', trawyd yr awdur gan y geiriau hyn gan Gwilym: 'Mae'r Gymraeg wedi llithro yn yr Hen Wlad'. Ond yr hyn sy'n dwysáu'r tristwch, wrth i Gwilym '[g]ofio'n eiddgar genhedlaeth yng Nghwm Rhondda a oedd yn mynegi'u hasbri trwy'r Gymraeg', yw sylweddoliad Gareth Alban mai dyna hefyd fyddai tynged teulu Gwilym yn y Wladfa: 'Os bydd ffawd o'i du, caiff ei dywys i'w fedd gan ffrindiau a ddeil i siarad ei iaith...'. A dyma ergyd arall sy'n dangos i'r dim allu crwytyn Cymraeg o'r Rhondda i uniaethu â sefyllfa ieithyddol frau y Wladfa: '...dieithriwyd ei gefndir ar y ddwy ochr i Fôr Iwerydd. Goroeswr deublyg ydyw.'

Beth am ymateb Dr Ceinwen i'r Wladfa? Un peth sy'n drawiadol yw ei hangerdd (fel sy'n wir hefyd am nifer o'i hadolygiadau deallus lle y lambastiwyd 'Cymraeg Byw' ymhlith sawl peth a bod dynol cysylltiedig arall). Digon diniwed yw ambell sylw er hynny – wrth drafod tafodiaith y Wladfa, roedd hi'n amlwg yn ymfalchïo yn nylanwad y Wenhwyseg, er enghraifft am 'teisen fach', meddai: 'dyna a ddywedir yn y Wladfa fel ym Morgannwg'.

Ond buan y daw ei hargyhoeddiadau cryfion i'r amlwg wrth iddi ystyried sefyllfa'r Gymraeg yn y Wladfa. Gresynai'n fawr fod 'y bobl ifainc, o'r deg ar hugain oed i lawr, yn sydyn wedi ymwrthod â'r Gymraeg', gan honni bod rhai na allai'r iaith yn 'beio'u rhieni yn llym am ganiatáu iddynt ei cholli'. Yn wir, noda iddi hi a Gareth Alban Davies weld y sefyllfa'n debyg i un 'Morgannwg cyn agor yr ysgolion Cymraeg'. Diau hefyd fod ei phrofiadau ieithyddol (heb sôn am drawma addysgol Margretta ei mam) yn sail i ganfyddiad doeth arall ganddi:

Credaf nad gelyniaeth at y Gymraeg sy'n peri i rai droi oddi wrthi ond anobeithio medru ymgynnal fel cymuned leiafrif ynghanol y mwyafrif estron... ac yn erbyn grym yr addysg Sbaeneg.

Yn ei herthygl olaf yn *Y Cymro*, ymddengys ei beirniadaeth yn fwy pigog. Dadleua, er enghraifft, mai '[p]obl ddjarweiniad yw Cymry'r Wladfa...' a'u bod yn 'wleidyddol anaeddfed'. Ond rhag imi gamliwio'i dehongliad, daw'n amlwg fod y genedlaetholwraig bybyr ac egwyddorol hon yn awyddus i briodoli'r diffygion hynny i'r famwlad.

Methiant y Wladfa felly ydyw methiant Cymru i sicrhau ei lle ymysg cenhedloedd rhyddion y byd...

A dyna ni'n ôl at y 'methiant' bondigrybwyll sy'n destun diflastod bellach i Dr Sara Borda Green. Yn nrych y Wladfa, mae'n ymddangos bod darluniau Dr Ceinwen a Gareth Alban yn rhan o batrwm sylwebyddion Cymreig eraill, sy'n gweld agweddau ar Gymru eu profiadau hwy yn fwy eglur na chymuned Gymreig Talaith Chubut yn ei hawl ei hun. Ond pwynt creiddiol i'w nodi yma yw bod argraffiadau meddylgar y ddau o Wladfa Gymreig y 1970au wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn eu hiraeth am gymdeithasau Cymraeg cymoedd Taf a Rhondda.

Wrth i ysgolion Cymraeg y de-ddwyrain a rhai dwyieithog (Cymraeg–Sbaeneg) Chubut fynd o nerth i nerth, tybed nad yw hi'n hen bryd i blant y cymoedd *heddiw* – o'n Sowth ni i Gwm Hyfryd yr Andes – gael gwefr debyg o atgyfodi hen gysylltiadau yn *lingua franca* eu treftadaeth? Ac o ystyried geiriau diwethaf Dr Ceinwen uchod, oni fyddai hithau'n awyddus i wybod hefyd pam yn y byd nad yw Llywodraeth Cymru, prif gyllidwr Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Nhalaith Chubut, yn defnyddio llwyddiannau'r prosiect hwn i ysbrydoli pobl Cymru fel rhan o'i strategaeth 'Cymraeg 2050'? Go brin y barnai hi mai Archentwyr Cymraeg y Wladfa sy'n 'wleidyddol anaeddfed' bellach!

Gellir cyrchu *Gwerddon*, 36 (Ionawr 2024), drwy'r ddolen a ganlyn:

<https://colegcymraeg.ac.uk/media/qhmjex0u/gwerddon-36.pdf>

DYFYNIADAU

Mae argraffiadau meddylgar Dr Ceinwen a Gareth Alban o Wladfa Gymreig y 1970au wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn eu hiraeth am gymdeithasau Cymraeg cymoedd Taf a Rhondda.

Tybed nad yw hi'n hen bryd i blant y cymoedd *heddiw* – o'n Sowth ni i Gwm Hyfryd yr Andes – gael gwefr debyg o atgyfodi hen gysylltiadau yn *lingua franca* eu treftadaeth?